# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **5ed o Fawrth 2026** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Enid Egginton, Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), June Jones, Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd), John Till, Megan Lloyd Williams (Golan), Gwilym Evans (Prenteg), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Iddon Edwards (Penmorfa) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | JJ yn cynnig ac EE yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **Garndolbenmaen –** Cafwyd ymateb gan Briffyrdd Dwyfor yn dweud y bydd rhaid trefnu agor ffosydd ger Cae Llyn. Bydd Arolygwr Ffyrdd yn trefnu archwiliad o'r gwli a threfnu gwaith pellach os fydd angen.<br><br>**Lôn Fudr, Golan –** Gwaith cychwynnol wedi cael ei wneud i ddiogelu'r safle gyda bwriad o gynnal gwaith ymchwil pellach i'r broblem yn y mis nesaf.<br><br>**Safle Bws, Bryncir** – Aros am ganlyniad yr Archwiliad Diogelwch Ffordd (RSA Cam 1/2 ). Bydd YGC mewn cyswllt pan fydd y canlyniadau yn ôl ac wedi'u harchwilio.<br><br>**Camfeydd Craig Garn –** Cafwyd ymateb gan Jack Peyton, Uwch Warden (Mynediad) newydd Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer ardal Garndolbenmaen a Chwm Pennant. Mae'n awyddus i helpu ac i sicrhau bod y camfeydd yma yn flaenoriaeth. Clerc i drefnu amser iddo gwrdd gyda CW a JJ. CW yn awyddus i'w dywys o amgylch yr holl gamfeydd. |
| 7. | Mynwentydd: | Côn wedi'i osod ar ochr y ffordd ger sied y fynwent i nadu pobl rhag parcio a cherdded rhy agos iddo. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | Gwaith llwybr 105 dal heb ei orffen. Beryg bod y tir dal yn rhy wlyb ar hyn o bryd. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | **Garndolbenmaen:** Adroddwyd bod gwrychoedd wedi gordyfu cyn Garndolbenmaen, gan rwystro gwelededd, a bod gwastraff wedi'i daflu neu ei ollwng ar hyd yr A487 o Garndolbenmaen hyd at Lwyn Mafon Uchaf. Clerc i gysylltu â'r Adran Briffyrdd a'r Asiantaeth Cefnffyrdd.<br><br>Llongyfarchiadau i Bwyllgor y Neuadd yng Ngarndolbenmaen am drefnu a chynnal cyngerdd Gŵyl Dewi gwerth chweil nos Sul y 1af o Fawrth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Pentrefelin -** Bu i'r Clerc gysylltu gyda YGC parthed dŵr yn rhedeg i lawr o Dy'n Llech a chafwyd ymateb yn dweud y byddent yn trafod y mater gyda Gareth Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor ac yn cysylltu gyda RJ i'w ddiweddaru. Adroddodd RJ nad oedd wedi derbyn galwad gan YGC. Clerc i ofyn am ddiweddariad.<br><br>Mae yna fan yn parhau i barcio mewn modd anystyriol a pheryg yn y pentref. Mae'r fan yn amharu ar allu pobl i gerdded ar hyd y llwybr troed yn ddiogel ac ar welededd eiddo cyfagos wrth iddynt geisio dod allan o'u heiddo. Clerc i gysylltu gyda'r heddlu.<br><br>**Prenteg –** Dŵr yn parhau o gronni ar Bont y Traeth,<br><br>**Golan –** Dim i'w adrodd<br><br>**Bryncir –** Dim i'w adrodd<br><br>**Penmorfa –** Dim i'w adrodd |
| 10. | Aelodaeth Unllais | Penderfynwyd ymaelodi am flwyddyn arall. EE yn cynnig a RJ yn eilio. Pris ail ymaelodi yn £293 y flwyddyn.<br><br>Adroddwyd bod Unllais Cymru yn agor y Pwyllgor Ardal nesaf i unrhyw aelod o'r Cynghorau Cymuned a Thref yn hytrach nag i un neu ddau gynrychiolydd. Mae'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn yr Institiwt yng Nghaernarfon ar y 15fed o Ebrill.<br><br>Mae'r Pwyllgor Ardal hefyd angen ethol is-gadeirydd ac aelod o'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol. |
| 11. | Cyfrif Cadw | Cyflwynodd y Clerc wybodaeth am Hampshire Trust Bank. Gan fod cyn lleied yn bresennol, penderfynwyd gohirio'r penderfyniad yma tan ein cyfarfod nesaf ym mis Ebrill. |
| 12. | Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth 2026 / 27 | **Taliad am gostau ychwanegol gweithio gartref - Gorfodol**<br>Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd yn rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref.<br><br>**Taliad penodol am nwyddau traul – Gorfodol**<br>Mae'n rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall mae'n rhaid i gynghorau ei gwneud yn bosibl i'w haelodau hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa.<br><br>Mater i bob cyngor yw gwneud a chofnodi penderfyniad polisi mewn perthynas â phryd a sut y caiff y taliadau eu gwneud ac a ydynt yn cael eu talu'n fisol, yn flynyddol neu fel arall. Dylai'r polisi hefyd nodi a fydd unrhyw daliadau a wneir i aelod sy'n gadael neu sy'n newid ei rôl yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael eu hadennill, a sut. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Lwfans Mynychu – Gorfodol**<br>Gall pob cyngor benderfynu cyflwyno lwfans mynychu i'r aelodau. Ni ddylai swm pob taliad fod yn fwy na £30. Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans mynychu ar gyfer yr un digwyddiad.<br><br>Am fod y taliad am fynychu yn ddewisol, dylai'r cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol cyntaf, benderfynu'n ffurfiol p'un a ddylid gwneud y taliadau hyn ai peidio.<br><br>Os bydd y cyngor yn penderfynu o blaid lwfansau mynychu, rhaid iddo lunio Cynllun ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol, gwneud darpariaeth iddo gael ei gyhoeddi a hysbysu'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.<br><br>Yr uchafswm gorfodol ar gyfer pob digwyddiad cymwys yw £30. Nid oes unrhyw isafswm penodedig.<br><br>Rhaid i daliadau am fynychu ymwneud â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy a nodir yn Rheolau Sefydlog y cyngor neu, fel arall, drwy benderfyniad penodol. Dylai'r cynllun nodi ar gyfer pa ddigwyddiadau y gwneir taliadau.<br><br>Bydd gan bob aelod o'r cyngor yr hawl i gael y taliad am fynychu'r digwyddiadau a nodir yn y cynllun, ond gall aelod unigol wrthod derbyn y taliad drwy hysbysu'r swyddog priodol (yn ysgrifenedig).<br><br>**Penderfyniad**: Mabwysiadwyd yr uchod<br><br>**Digolledu am Golled Ariannol: Penderfyniad 8**<br>Taliad dewisol yw digolledu am golled ariannol.<br>Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai'r taliad hwn gyd-fynd â chyfradd ddyddiol ASHE, sef £126.74 am ddiwrnod llawn a £63.37 am hanner diwrnod.<br><br>**Uwch Rôl – Dewisol Hyd at 3 Aelod**<br><br>Mae'r taliad ar gyfer aelodau sy'n ymgymryd ag uwch swyddogaeth yn swm blynyddol o £500.<br><br>**Penderfyniad:** Gwrthod yr uchod.<br><br>**Maer neu Gadeirydd – Dewisol hyd at Uchafswm i £1,500**<br>Gall Cynghorau Tref a Chymuned ddarparu taliad i Faer neu Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gweithio gartref a'r swm sefydlog o £52 ar gyfer nwyddau traul swyddfa a'r uwch gyflog o £500 os hawlir y rhain.<br>Er eglurder, mae Cynghorau yn talu NAILL AI taliad maer neu gadeirydd o hyd at £1500 NEU daliad uwch gyflog o £500, ond nid y ddau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Penderfyniad:** Gwrthod yr uchod<br><br>**Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd – Dewisol hyd at Uchafswm o £500**<br>Gall Cynghorau Tref a Chymuned ddarparu taliad i Ddirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gweithio gartref a'r swm sefydlog o £52 ar gyfer nwyddau traul swyddfa a'r uwch gyflog o £500 os hawlir y rhain. Er eglurder, mae Cynghorau yn talu NAILL AI taliad dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd o hyd at £500 NEU daliad uwch gyflog o £500, ond nid y ddau.<br><br>**Penderfyniad:** Gwrthod yr uchod.<br><br>**Lwfans Presenoldeb – Dewisol**<br>Gall pob Cyngor benderfynu cyflwyno lwfans mynychu i'r aelodau. Ni chaiff unrhyw daliad fod yn fwy na £30. Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans mynychu ar gyfer yr un digwyddiad.<br><br>**Penderfyniad:** Gwrthod yr uchod<br><br>**Colled Ariannol – Dewisol**<br>Gall Cynghorau Cymuned a Thref dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:<br>Hyd at £67.45 am bob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr<br>hyd at £134.90 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond heb fod yn fwy na 24 awr<br><br>Yr uchod oedd yr unig newid i'r Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth 2026/27<br><br>**Penderfyniad:** Mabwysiadwyd yr uchod.<br><br>**Teithio a Chynhaliaeth – Dewisol**<br>Gall Cynghorau Cymuned a Thref benderfynu talu costau teithio a/neu gynhaliaeth pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau ei Fawrhydi.<br><br>Os yw'r Cyngor Tref neu Gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau.<br><br>**Penderfyniad:** Mabwysiadwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol - Gorfodol**<br>Rhaid i'r Cyngor Cymuned ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol). Rhaid i hyn fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy.<br><br>**Penderfyniad:** Mabwysiadwyd |
| 13. | Codi Hicyn Cyflog y Clerc | Penderfynu codi hicyn y clerc o bwynt 9 (£14.13 yr awr) i Bwynt 10 (£14.35 yr awr). Bydd y *Standing Order* misol yn newid o £377.89 i £382.32 y mis. Pawb yn cydweld. |
| 14. | Dyddiad Cyfarfod Mis Ebrill | Adroddodd y Clerc nad oedd ar gael ar nos Iau'r 2il o Ebrill, penderfynwyd a chytunwyd i symud y cyfarfod i nos Iau'r 9fed o Ebrill. Awgrymwyd bod dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei ychwanegu i'r agenda yn fisol, byddai hyn yn rhoi cyfle i gynghorwyr ddweud ar y noson os nad ydynt ar gael. |
| 15. | Gohebiaeth | a. Grant -Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd 2026 – Rhannwyd ac awgrymwyd fod pawb yn meddwl am beth allwn ymgeisio.<br>**b.** Ymgynghoriaeth Cais Trwyddedu - Trafodwyd y cais ac nid oes unrhyw wrthwynebiad. |
| 16. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Datblygu Lleol 3 – Galw am safleoedd. Rhannwyd yr wybodaeth.<br>b. Parc Cenedlaethol Eryri - Recordiad Cyfarfod Fforwm Cymunedau 5ed Chwefror 2026. Rhannwyd. |
| 17. | Cynllunio | Rhestrau: 2/2, 9/2, 16/2 a 23/2<br><br><u>Ceisiadau Cynllunio</u><br><br>**C25/0612/36/LL** - Tyddyn Ysguboriau Tabor Lane, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0RA. Adeiladu estyniad i sied amaethyddol bresennol a gosod iard goncrit newydd. Dim gwrthwynebiad.<br><br>**C25/0612/36/LL** - Tyddyn Ysguboriau Tabor Lane, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0RA. Dymchwel adeilad amaethyddol diangen ac estynnu'r adeilad amaethyddol presennol. Dim gwrthwynebiad. |
| 18. | Materion Ariannol | **<u>Ceisiadau am arian:</u>**<br><br>Côr yr Heli - Clerc wedi ymateb i'r cais yn dweud bod y ffenest ymgeisio ar gyfer y flwyddyn yma wedi cau. Anfonwyd ffurflen gais iddynt lenwi ar gyfer y flwyddyn nesaf.<br><br>**<u>Monitro'r Gyllideb</u>**: Dim Gorwariant<br><br>**<u>Biliau i'w talu:</u>**<br><br>Cyflog Clerc £ 342.89<br>Ffôn £ 15.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 85.60<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>Unllais Cymru (aelodaeth 26/27) £293.00<br><br>Soniwyd hefyd bod yr offer fideo gynadleddau yn cael eu danfon dydd Llun a bod yr hysbysfwrdd ym Mhenmorfa yn fod i gael clo newydd yfory (dydd Gwener) ac er mwyn i'r grant gael ei ryddhau, bod rhaid profi ein bod wedi talu'r anfonebau. Caniatawyd i mi dalu'r anfonebau. Bydd rhaid gwneud dau daliad gan fod yna gyfyngiad ar faint o arian gallaf wario mewn unwaith.<br><br>**** Cymeradwywyd i dalu'r uchod.**<br><br>**<u>Derbyniadau</u> –**<br><br>Cyngor Gwynedd (ad-daliad Llwybrau Cyhoeddus) £886.00<br><br>**<u>Balansau Cyfrifon:</u>**<br>Cadw – £34,000<br>Cyfredol- £2,695.24 |
| 19. | Dewis Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan | Seddi Gwag |